# DINESYDD

**PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH**

**148** **HYDREF 1988**


# ARWEL HUGHES O.B.E.

# 1902-1988

GWIREB fyddai dweud fod cylchoedd a graddau o adnabod fel, er enghraifft, adnabyddiaeth deuluol, galwedigaethol a chymdeithasol, ac mai o ran yn unig yr adwaenir dyn os cyfyngir i unrhyw un o'r rhain.

Er yr holl bethau y gellir eu dweud am Arwel Hughes a'i le sicr ym myd ei ddoniau disglair, ni fyddai'r darlun yn agos at fod yn gyflawn heb son amdano fel aelod o eglwys a'i wasanaeth fel diacon. Roedd yr eglwys yn estyniad o'r teulu, a'r Tabernacl, ar yr Ais, yn hanfodol glwm wrth yr aelwyd. Byddai'n amhosibl i neb a'i adnabu'n iawn i fod yn anhysbys o'r ymrwymiad cadarn i'r Achos mawr.

Groegwr a ddywedodd wrthym un tro, "I ni Roegwyr, mae tri pheth annatod, sef y teulu, y genedl, a'r Gristionogaeth', a dyna'n union fyddai'n wir i'w ddweud am Arwel Hughes. Roedd yn ben-teulu sydd yn deulu agos iawn, ond ar yr un pryd yn gynnes ac yn agored mewn diddordeb a serch a chymwynasgarwch mawr tuag at bawb. Aelwyd hynod groesawgar oedd aelwyd y teulu hwn. Ond roedd y Tabernacl yn rhan hanfodol o'r aelwyd a'r eglwys yn rhan o'r teulu. Yn ei ffordd naturiol ddiymhongar a di-ymwthgar, rhoddodd ei ddoniau at wasanaeth yr eglwys, ac er mai ef oedd y pen-cerddor cyfeiriai ato'i hun, gyda'i wen nodweddiadol, fel yr "eilydd" ymysg yr organyddion a anogodd i rannu'r gwaith.

Cefnogai holl waith yr eglwys, ac ni roddai dim fwy o bleser iddo na bod ynghanol y plant a'r bobl ifainc. Ni chafodd nac eglwys na gweinidog rhagorach cefnogwr a chydweithiwr. 'Roedd yn ddealladwy gan yr organyddion bob amser mai Arwel fyddai'n cyfeilio ar uchel-wyliau, ond nid dyn yr achlysuron arbennig mohono, roedd yno ymhob oedfa a'i wen a'i hiwmor hyfryd yn sirioli pawb ar eu dyfodiad i mewn a'u mynediad allan.

Cofir am y blynyddoedd pan fyddai'r Côr yn cynnal cyngerdd ddwywaith y flwyddyn (er budd achosion elusengar), byddai Arwel Hughes wrth yr organ, Owain Arwel yn arwain a gweddill y teulu, sef ei briod Enid a Delun ac Ieuan yn y côr. Ni chofiwn i holl lafur nos Sadwrn erioed fod yn esgus dros golli oedfaon trannoeth!

Dyn diwyd ond diffwdan, dyn dawnus ond diymhongar, dyn hawdd nesu ato ond heb fod yn nawddoglyd oedd y dyn annwyl hwn a wasanaethodd fel diacon, gan ei chyfrif yn fraint i fod yn aelod a diacon yn yr eglwys. Diolchwn i'r Duw mawr am inni ei gael cyhyd, a thrwy hynny, gael ein cyfoethogi o'i adnabod.

Raymond Williams.



Am i Arwel ymyrraeth â'r côr mawr
a mud â'i ddewiniaeth
y rhyddheir ei gerddoriaeth
dro 'rôl tro ar lawer traeth.

BETH BYNNAG fo'r esboniad y ffaith amdani yw bod Rhosllannerchrugog wedi bod yn fagwrfa i lu o dalentau disglair. Un o'r rhain oedd Arwel Hughes a fagwyd ar aelwyd gerddorol mewn pentref gyda'r mwyaf cerddorol yng Nghymru. Plannwyd y gwreiddiau cerddorol yn Arwel yn ei fro enedigol ond fe gafodd ei feithrin a'i ddatblygu yn Llundain a Rhydychen cyn cael ei drawsblannu i Gaerdydd. Yna, dan adain y BBC blagurodd gan dyfu'n braff, yn hyblyg ac eto'n gadarn.

Fyddai neb parotach nag yntau i sylweddoli gymaint ei ddyled i'r BBC am y cyfle a gafodd i ymarfer ei ddoniau wrth fynd i'r afael â manion a manylion cerddorol, trefnu rhaglenni, arwain a hyfforddi, cyfansoddi cerddoriaeth achlysurol ar gyfer rhaglenni, heb sôn am ei gyfansoddi personol y tu allan i'w oriau gwaith swyddogol. Yn hyn o beth gellir dweud, yn achos Arwel, fod "gwaith a phleser bellach wedi mynd yn un".

Coronwyd ei yrfa yn y BBC pan gafodd ei benodi'n Bennaeth yr Adran Gerdd lle y cafodd gyfle i hybu a hyrwyddo llawer ar fywyd cerddorol Cymru. Parhaodd y diwydrwydd hyn wedi iddo ymddeol pan aeth yn Gyfarwyddwr Cerdd Eisteddfod Ryngwladol Llangollen yn olynydd i W.S.Gwynn Williams. Unwaith eto, cafodd gyfle i hybu a hyrwyddo, ac mae ei lafur yn drwm ar yr Ŵyl unigryw honno. Bydd cystadleuaeth "Côr y Byd" a'r "Gloria Patri" yn aros i gofio amdano.

Ond fe gofir amdano am gymiant o roddion cerddorol - ei ddwy opera "Serch yw'r Doctor" a "Menna"; am weithiau oratorio megis "Gweddi" a "Dewi Sant" ac mae'n dda gwybod y bydd yr olaf yn cael perfformiad yn Eisteddfod Llanrwst y flwyddyn nesaf. Er na fydd y cyfansoddwr yno i brofi teyrnged ei genedl iddo, ar achlysur ei benblwydd yn bedwar ugain oed, caiff orffwys yn dawel ei feddwl iddo gael ei gydnabod gyda diolch yng ngŵyl gwenedlaethol ei genedl. Ni eilir anghofio am ei lu trefniadau o emynau, darnau ac unawdau i gyfeiliant cerddorfa, ac fe erys "Tydi a Roddaist" yn rhan o fytholeg Cymru tra pery.

Os ydy'r llais yn fud mae lleisiau newydd yn canu ei waith; os ydy baton yr arweinydd ar y silff mae eraill yn dwyn ei waith i sylw'r bobl; os ydy'r llawysgrif wedi'i rhoi heibio mae'r nodau'n dal i ganu mewn cân o foliant iddo.

Er i Arwel gyfrannu'n fawr ar gynfas eang y bywyd cerddorol mae'n werth cofio iddo roi o'i amser a'i ddawn i gyfansoddi ar gyfer achlysuron yn ei gapel. Cyfansoddwyd dwy gantawd ar gyfer adnoddau cerddorol Eglwys y Tabernacl sy'n haeddu cael eu lle ymhlith y defnyddiau ar gyfer eu perfformio led-led y wlad. Mae'r ddau waith yn llawn diddordeb cerddorol, o fewn cyrraedd y rhan fwyaf o dalentau ein capeli, yn bleser i'w paratoi ac yn fwyniant pur i'r glust. Haeddant gylchrediad eang.

Un o'r atgofion melysaf sydd gen i am y perfformiadau hyn oedd cael Arwel ei hun wrth yr organ, Enid wrth y piano yn ystod rihyrsal ac yn y côr yn y perfformiad, a'r tri phlentyn yn cymryd rhan - Owain a Ieuan yn fugeiliaid a Delun yn y brif ran. Yn ei angladd ar Fedi 30 yn y Tabernacl roedd tarian y teulu'n ddiogel eto o'i gwmpas wrth iddo ffarwelio a'r byd hwn.

Wynne Lloyd.

**PROTESTIODD CIT BOOBIER I'R SIOP PITLOCHRY AM WRTHOD SIEC GYMRAEG. DYMA'R ATEB A GAFODD!**

You raise the question in your letter of cheques written in Welsh, in payment for goods purchased ar our shop in Cardiff. Whatever you may feel to the contrary, I have to say that given the situation where an individual wishes to write a cheque in Welsh, and the shop in question has no Welsh speaker present at the time, then I fail to see what other course of action can be taken other than to refuse to accept such a cheque. We do after all live in Great Britain; up here in Scotland Gaelic is still quite a common language in the North and West, spoken by people proud to do so, (we have dual-language place names as you have in Wales), and there has never been an instance of a customer insisting on writing a cheque in Gaelic.

We have a business to run, and of course our prime responsibility is to make sure that our customers receive the sort of service that they have come to expect from Pitlochy Knitwear. You may be interested to know that we do have one member of staffwho is fluent Welsh speaker - she is presently studying to be a teacher of Welsh, but this girl is only available during vacations and at weekends. Otherwise I am afraid our policy will still remain the same, i.e. to only accept cheques that are understandable to our staff and can therefore be varified.

With kind regards,

Yours sincerely,
for PILTLOCHRY KNITWEAR CO. LTD

R.A.M. Strickland

# BARA CAWS

Mae Bara Caws wrthi yn brysur ar hyn o bryd yn paratoi eu cynhyrchiad diweddaraf. Bydd taith yr Hydref yn cychwyn Hydref 18fed.

Mae'r cyflwyniad sy'n dwyn y teitl "Salem ar Sêl" yn cael ei gyflwyno mewn 26 o Gapeli o gwmpas Cymru. Canolbwynt y ddrama ydi hanes capel yn cau a'r sgil effeithiau i'r fro. Penderfynwyd defnyddio y set fawr er mwyn manteisio ar naws unigryw capel.

Bydd yn gyflwyniad gwahanol ag arloesol yn llawn ddefnyddio'r lleoliad i greu stori rymys berthnasol i bob ardal drwy'r wlad.

Ysgrifennwyd y script gan Cefin Roberts a Valmai Jones, y gerddoriaeth gan Gareth Glyn, cynlluniwyd y set gan Emyr Morris-Jones a'r cyfarwyddo gan Cefin Roberts.

Yr actorion fydd Idris Jones, Stewart Jones, Valmai Jones, Merfyn Pierce Jones a Huw Garmon. Mae Merfyn a Huw yn gweithio fel actorion proffesiynnol am y tro cyntaf. Bydd holl elw gwerthiant y rhaglenni yn cael ei gyfrannu at Apêl Llifogydd Bangladesh.

Mae gwledd o Theatr yn eich disgwyl yr Hydref yma




# Y CALENDR

Hydref

12 CYMDEITHAS MINNY STREET am 7.15 "CYFIEITHU'R BEIBL", Nigel Hughes o CADW

14 CYMRY'R WENALLT yng ngwesty'r Pantmawr am 8 o'r gloch. Siaradwr - Martyn Williams

16 CYMDEITHAS MINNY STREET Gwasnaeth y Gymdeithas Y Wraig Wâdd: Emily Davies

26 CYLCH CINIO CYMRAEG Y BARRI a'r FRO Siaradwr - Y Parchedig Manwell Evans

Tachwedd

10 CYMDEITHAS MINNY STREET am 7.15 Noson Gymdeithasol gydag Eglwys y Crwys

11 CYMRY'R WENALLT yng ngwesty'r Pantmawr am 8 o'r gloch. Siaradwr - Alun Guy

23 CYMDEITHAS MINNY STREET am 7.15 "BYWYD MILFEDDYG" - Gerwyn Llewellyn

25 CYLCH CINIO'R BARRI A'R FRO Noson y gwragedd Y Wraig Wâdd: Rhiannon Evans, Tregarth

Rhagfyr

11 Eglwys Dewi Sant, Caerdydd, CAN Y NADOLIG er budd Canolfan yr Urdd; 8 o'r gloch

MERCHED Y WAWR
Cangen Caerdydd

Hydref 10
Coginio Microdon

Tachwedd 14
Dr Elin Jones
(Amgueddfa Genedlaethol)

---

AIL ARGRAFFU CLASUR CYMRAEG A AETH YN ANGOF SIONED gan Winnie Parry

Pris £4.50

Ail argraffodd HONNO - y wasg i fenywod yng Nghymru - glasur Cymraeg a gyhoeddwyd gyntaf ym 1906, sef SIONED - Darluniau o Fywyd Gwledig yng Nghymru, gan Winnie Parry.

Ymddangosodd Sioned yn wreiddiol fel cyfres yn y cylchgrawn Cymru o dan olygyddiaeth O M Edwards. Yn wir, O M Edwards oedd un o gefnogwyr pennaf Winnie Parry; cymaint oedd ei ymddiriedaeth yn ei gallu fel y gofynnodd iddi olygu Cymru'r Plant rhwng 1907 a 1911.

Meddai pan gyhoeddwyd Sioned
"Rwyf yn siwr y daw y llyfr mor bobloguidd yng Nghymru a Hunangofiant Rhys Lewis ac y mae'n llwyr haeddu cael bod".

Dilyniant o ddigwyddiadau teuluol yw Sioned, yn llawn hiwmor a direidi merch ifanc fywiog yn ei harddegau. Daw'r berthynas rhwng aelodau'r teulu, yn arbennig perthynas Sioned a'i brawd Bob yn fyw o flaen ein llygaid wrth i dafodiaith gyfoethog Sir Gaernarfon ac arddull hwylus yr awdur ein swyno mewn penodau megis Bob Mewn Cariad, Mam yn mynd ar Fisit, Jacob Jones y Stiwdant, Sbectols fy Mam, Hiraeth, a Priodas Bob. Cymwynas â darllenwyr Cymru yw cael yr argraffiad newydd yma!

# "Yn Oriel Yr Anfarwolion"?

BU ORIEL, siop Cyngor Celfyddydau Cymru yn rhan o fywyd Caerdydd ers rhai blynyddoedd bellach. Bu'r adeilad yn Heol Siarl yn gartref i un o'r ychydig orielau celf yn y brifddinas, siop lyfrau gelfyddydol ddiguro lawr llawr, a siop lyfrau Gymraeg ar y llawr cyntaf.

Mae'n lled hysbys i bawb bellach fod prydles yr adeilad yn dod i ben fis Chwefror nesaf. Yn naturiol ddigon y cwestiwn ar wefusau nifer o bobl yw "Pam nad yw Cyngor Celfyddydau Cymru wedi gwneud unrhyw ddatganiad cyhoeddus ynglyn a chynlluniau'r dyfodol - a Chwefror ond ychydig dros dri mis i ffwrdd?"

Yn wyneb polisi presennol y Cyngor o ganolbwyntio ar gynghori, ar roddi gwybodaeth, ac ar benderfyniadau noddi yn hytrach na darparu adnoddau uniongyrchol eu hunain, cred rhai mai bwriad y Cyngor yw gwneud i ffwrdd a chanolfan o'r fath yn llwyr.

Ers misoedd bellach bu Cymdeithas Arlunwyr a Dylunwyr Cymru - corff sy'n cynrychioli artistiaid proffesiynol - yn pwyso ar Gyngor Celfyddydau Cymru am wybodaeth ynglyn a'r dyfodol. Mae cadeirydd C.A.D.C.,Phil Nichol, wedi llythyru a chyfarwyddwr Cyngor Celfyddydau Cymru, Tom Owen, gan geisio yn ofer cael gwybodaeth ynglyn a'r dyfodol.

Wrth ragweld y sefyllfa'n codi fe baratowyd cynllyn gan C.A.D.C. i addasu adeilad yr hen lyfrgell yn yr Ais yn ganolfan gelfyddydol a fyddai'n deilwng o brifddinas Cymru. Ond ofer fu ymdrechion y Gymdeithas i dynnu pawb at ei gilydd i drafod y mater. Gwnaed sawl cais i geisio perswadio Cyngor Celfyddydau Cymru i drafod y mater, ond yn ofer.

Ond ar waetha gwrthodiad y Cyngor i drafod, a'u hawydd anealladwy i gadw pob dim yn gyfrinachol - rhybuddiwyd staff y byddai datgelu gwybodaeth i'r wasg a'r cyhoedd yn arwain at ddiswyddiad - gall y Dinesydd ddatgelu fod gan Cyngor Celfyddydau Cymru gynlluniau pendant ar gyfer ail-leoli Oriel. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno cais i Gyngor Dinas Caerdydd i addasu safle Banc Barclays yn ffordd y Brodyr Llwydion, a fu'n wag ers rhai misoedd, yn oriel gelf a siop lyfrau.

Gallwn dybio felly fod cynlluniau ynglyn a'r Oriel newydd yn mynd rhagddynt. Ond ai gwell fuasai i'r Cyngor drafod a gwyntyllu syniadau gyda grwpiau a chymdeithasau sy'n ymwneud a'r celfyddydau yng Nghymru i sicrhau canolfan deilwng? Mewn llythyr yn y Western Mail cyhuddodd Vanessa Webb, trefnydd cenedlaethol C.A.D.C., y Cyngor o wneud penderfyniadau heb unrhyw ymgynghori, ac o dan gwmwl cyfrinachol.


Mae'n siwr i'r Cyngor gredu fod ganddynt resymau da dros gadw'n ddistaw - ond tybed a oes gennym ni drethdalwyr yr hawl i wybod?



Cartref newydd Oriel? - hen safle Banc Barclays yng nghanol y ddinas.

# ENNILL Y DYDD

Eisioes y mae Bryn Terfel wedi gwneud enw iddo'i hun ar lwyfanau a chyngherddau yng Nghymru a thros Glawdd Offa. Ar ol ennill cystadleuaeth Canwr y Flwyddyn yn ddiweddar proffwydir gyrfa ddisglair iawn iddo, ac yn sicir fe glywir llawr mwy am y canwr ifanc hwn a'i ddawn a'i brrsonoliaeth ddeniadol.Llongyarchwn ef ar ei lwyddiant.




SAIN

GWYL 1000 O LEISIAU O'R ALBERT HALL
CORAU MEIBION Y GOGLEDD '88

DIM OND Y GWIR
Y BRODYR GREGORY

GERAINT LOVGREEN A'R ENW DA
Os Mêts... Mêts

CÔR MERCHED Y GARTH

CÔR MERCHED UWCHLLYN — MAE'R GAN YN YR ARAN...

BRYN TERFEL

GAWN NI STORI?
PECYN LLYFR + CASET O CHWEDLAU CYMRU

ELINOR BENNETT — DARLUN O'R DELYN

Sengl
BLAENAU Y
Noeth/Celwydd

Yn eich siop leol, ar faes yr Ŵyl, neu drwy'r post
SAIN · LLANDWROG · CAERNARFON · GWYNEDD (0286) 831111

# SÊR Y DINESYDD

EIRY PALFREY

Mis Hydref

ARIES
Mae hi wedi bod yn hen flwyddyn eitha annymunol hyd yn hyn, ac eto'r mis Hydref hwn mi fydd y ddau blaned drygionus Sadwrn ac Uranus yn dal i achosi llanast yn eich bywyd. Mae angen dysgu un o wersi bywyd arnoch chi mae'n debyg. Ond fe ddylai pethau wella'n sylweddol erbyn diwedd y mis. Bydd rhaid gwneud newidiadau mawr nawr neu mi fyddwch yn difaru.

TAURUS
Fe ddylai hwn fod yn fis ardderchog i unrhyw fenter busnes, ond gofalwch eich bod wedi gwneud eich gwaith cartref yn drwyadl cyn mentro. Rhaid trafod eich sefyllfa ariannol a chymryd cyngor. Mae pethau mawr ar ddigwydd yn eich bywyd carwriaethol. Doethineb piau hi os ydych yn cael eich temtio!

GEMINI
Mae Sadwrn ac Uranus wedi bod yn chwarae mîg a'ch teimladau ers tro bellach, a'r mis hwn mi fyddant yn dal i'ch poenydio, ond fe ddylai pethau wella'n sylweddol ar ôl y 18fed. Fe allech glywed newyddion am briodas nei enedigaeth tua'r 10fed. Cymrwch ofal o'ch iechyd ddiwedd y mis. Ymlaciwch! Mae 'na lawer o densiwn o'ch cwmpas.

CANCER
Fe fydd angen i chi wynebu realiaeth y mis hwn, yn enwedig os ydych wedi bod yn osgoi gwneud hynny. Mae 'na broblem yn eich bywyd sydd rhaid ei datrys, a nawr yw'r amser i wneud hynny. Fe all fod yn benderfyniad poenus, ond bydd raid ei gymryd. Mae'r dyfodol yn llawn o addewidion. Dylai eich perthynas ffynnu ar ôl y 21ain.

LEO
Ers misoedd bellach mi rydych wedi bod yn chwilio am her a phwrpas newydd i'ch bywyd. Mae'r chwilio hwnnw bron ar ben, a fe ddylech ddod o hyd i'r ateb y mis hwn. Efallai bydd raid i chi lyncu rhai ffeithiau poenus, ond os y derbyniwch nhw'n onest, yna fe ddylai pethau cyffrous a llwyddiannus iawn ddigwydd i chi.

VIRGO
Mae Iau y planed hawddgar a hael sy'n dwyn lwc dda yn gwenu'n rhadlon arnoch chi'r mis hwn. Ond fe fydd raid i chi ei helpu trwy afael ym mhob cyfle ddaw i'ch rhan. Fe ddylech wneud yn dda iawn yn ariannol ac yn y gwaith. Ond arhoswch tan ar ôl yr 20fed cyn arwyddo unrhyw ddogfennau pwysig. Fe ddylai hwn fod yn fis rhamantus hefyd.

LIBRA
Mae'r berthynas sy' rhwng Iau a'r Haul y mis hwn yn debygol o ddod a lwc dibendraw i chi. Nawr, ond i chi weithio gyda'r sêr fe allwch wireddu eich breuddwydion. Fe wnewch rhywbeth fydd yn synnu pawb, ond peidiwch â gadael i'r beirniaid eich rhwystro. Mae na lawer o waith caled o'ch cwmpas, ond gwaith diddorol, a mi fyddwch yn ei fwynhau.

SCORPIO
Mae'r darnau yn araf syrthio i'w lle, a fe ddaw pethau yn llawer gwell i chi o hyn ymlaen, yn enwedig ar ôl i'r Haul symud i'ch arwydd ar y 23ain o'r mis. Peidiwch â disgwyl gwyrthiau, ond cofiwch mae'n ara deg mae ennil tir. Efallai bydd rhywun yn eich siomi ddechrau'r mis, ond ceisiwch beidio â dal dig.

SAGITTARIUS
Mae bywyd wedi bod yn llawn o ddigwyddiadau annisgwyl a siomedigaethau ers misoedd bellach, diolch i Sadwrn ac Uranus. O hyn ymlaen mi fydd eu dylanwad yn gwanhau, er y byddan nhw'n dweud ffarwel gydag arddelaid tua'r 18fed o'r mis! Ymrolwch - fe allai unrhywbeth ddigwydd, yn enwedig os yw eich penblwydd yn disgyn rhwng Rhagfyr 18fed a'r 21ain.

CAPRICORN
Mae bywyd wedi nod yn eitha anodd yn ddiweddar, tra bu'r hen Sadwrn yn dysgu rhai o'i wersi i chi. Cymrwch fantais o'r ffaith ei fod yn arwydd Sagittarius am rai wythnosau eto trwy fod yn fwy hyblyg, ymlacio a mwynhau bywyd. Fe ddylai pethau fod yn llwyddiannus yn y gwaith y mis hwn, a mae 'na rai newidiadau yn yr arfaeth.

AQUARIUS
Fe fydd y problemau emosiynol sy wedi'ch poeni'n ddiweddar yn raddol gilio o hyn ymlaen. Gellwch edrych ymlaen at hydref heddychlon. Ond fe allech gael problemau ariannol o hyn hyd ddiwed y flwyddyn. Bydd angen cynllunio'n ofalus arnoch ac osgoi gwario ffol. Afraid pob afrad cofiwch. Cewch siom pan fydd rhaid gohirio hoff gynllun i'r dyfodol.

PISCES
Y mis hwn fe ddylech gynryd sylw mawr o'ch greddf ac anwybyddu'r beirniaid sy'n debygol o geisio'ch perswadio i ymddwyn yn groes i'ch teimladau. Chi fydd yn iawn y tro hwn. Rydych chi mewn sefyllfa gref nawr i fynnu eich ffordd eich hun yn y gwaith a'r cartref. Efallai cewch eich synnu'n fawr, sioc hyd yn oed, tua'r 28ain.

CYMDEITHAS GYMRAEG DINAS POWIS

Aeth rhyw hanner cant o aelodau'r Gymdeithas draw i'r "Hwyrnos" yn Abertawe ar Fedi 23. 'Roedd hi'n noson arbennig o hwyliog a'r gwmniaeth a'r adloniant yn bleserus tu hwnt. Cawl Cennin a chig oen a llysiau oedd ar y fwydlen, ynghyd â digon o win coch melfedaidd a Phwdin Efa a hufen ffres i orffen. Cludwyd y criw draw i'r Gorllewin ac yn ôl mewn bws, felly 'doedd dim achos poeni am yrru - pawb yn canu neu cysgu ar y bws yn ôl y dewis! Diolch i Moyra Owen a Helen Daniel am i trefniadau trylwyr.

Bydd "Swper Croeso" y Gymdeithas Nos Lun Hydref 3 pan ddisgwyliwn Geraint Huws, Pentyrch i dywys ein Noson Agoriadol. Fel arfer bydd y gwragedd wrthi'n paratoi lluniaeth ac mae'n siwr bydd neuad Sant Pedr wedi'i addurno'n hydrefol braf i groesawu'r aelodau wrth gychwyn ar weithgareddau'r tymor.

Croeso i bawb sydd am ymuno â'r Gymdeithas ar Dachwedd 5 am 6.30 yn "Ardwyn" - Cartref Cenedlaethol y Plant ar Ffordd y Tyrpeg yn Ninas Powis. Cewch wledd o Dân Gwyllt a digon o hwyl am £2 y teulu - dewch draw am dro! Ffoniwch 701877 neu 512299 am docynnau.

Trist yw cofnodi marwolaeth Dafydd Morgan yn ei gartref "Skomer", Marine Parade, Penarth. Dioddefodd Dafydd afiechyd blin ac ni chollodd ei ffydd Gristnogol na'i wên siriol er gwaethaf ei anabledd i gyfathrebu â'i deulu a'i ffrindiau. Cofiwn am ei haelioni a'i garedigrwydd tuag at pob achos cysylltiedig a'r 'pethe' - bu'n gefn i Gymreictod ym Mhenarth am flynyddoedd lawer. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys at ei weddw Marged a ofalodd mor dyner amdano ac at ei ferch Eira Ann a'i fam Mrs Morgan o Ferthyr sydd bellach wedi ymgartrefi gyda'r teulu yn Skomer.



Tim peldroed Canolfan yr Urdd
Huw Eirug ar y pen ar y chwith.

# O'R GANOLFAN

**Yn dilyn ymadawiad Huw Eurig o'i swydd fel Swyddog Datblygu De Morgannwg a Gwent, penodwyd Huw arall i gymryd ei le, sef Huw Davies. Brodor o Dregarth, ger Bangor yw Huw, ac mae newydd ennill gradd o Brifysgol Manceinion mewn Chwaraeon a Hamddena. Dymunwn pob lwc iddo yn ei swydd newydd.**

**Cychwynir y dosbarthiadau Cymraeg ar y 12fed o Fedi, ac os gwyddoch am unrhyw un â diddordeb mewn dysgu, cysylltwch â: Ian Myhre, ar Caerdydd 487159.**

# LLWYDDIANT

Mae'n fraint gan y Dinesydd longyfarch un o'n gohebwyr cyson, Owenna Hopwood, ar ei llwyddiant yn y gystadleuaeth a drefnwyd gan gylchgrawn arall sef 'Good Housekeeping'. Gofynwyd i'r cystadleuwyr drin a thrafod delwedd y cylchgrawn hwn gan ganolbwyntio ar ei glawr gyda'r bwriad o bwyso a mesur pwysigrwydd y clawr a'i effaith ar werthiant y cylchgrawn.

Gwobrwywyd pump ymgeisydd - pob un â chlod mawr a dyfarnwyd iddyn nhw wobr arbennig iawn, sef diwrnod o brofiadau gwefreiddiol yng nghwmni cynhyrchwyr 'Good Housekeeping'. Dyma adroddiad Owenna - rydym yn falch ohoni!

---

Diwrnod i'r Brenin oedd hi imi ar Fedi 15 pan gefais y pleser o ymweld â swyddfeydd y cylchgrawn 'Good Housekeeping' yng Nghanolfan Cenedlaethol y cylchgronau ar gornel Carnaby St yn Llundain. Cefais dderbyniad arbennig o wresog gan Noëlle Walsh y Golygydd cyn ymuno â'r enillwyr eraill am sgwrs a phaned o goffi, 'sherry' a biscedi. Yna, cychwyn ar daith tu hwnt o ddifyr o gwmpas pencadlys 'Good Housekeeping'. Cefais agoriad llygad i holl gymhlethdodau byd y cylchgronau mawrion - feddyliais i erioed fod yna gymaint o ystfaelloedd gwaith a rheini'n cynnwys bob math o ryfeddodau! 'Roedd yna offer coginio, gweu, gwnio, golchi a smwddio o bob gwneuthuriad posibl ac un ystafell arbennig i wneud arbrofion ar yr holl offer er mwyn pennu'n gwerth. Ymlaen a ni at y ceginau crand a'r ystafell fwyta foethus lle cawsom bryd bwyd "Haute cuisine" a phob resait wedi'u destio'n drylwyr gan staff yr adran goginio. 'Roedd y bwrdd wedi'i osod yn chwaethus a'r morynion yn serchus dros ben wrth eu gwaith yn gweini arnom. Digonedd o ddewis o winoedd da a chyfle i brofi'r paté a salad cnau hyfryd cyn mynd ymlaen at yr eog mewn crwstyn a llysiau ffres lliwgar a desglaid hardd o "Passion Friut Mousse" a hufen, cyn cychwyn ar gosiau o bob math a grawnwin melys heb hadau! Brâf oedd dod i ben â'r pryd godidog gyda sgwrs uwchben paned o goffi du a Brandi. Lwcus nad oedd achos gyrru i'r unlle ar ôl!

Yn ystod y prynhawn daeth cyfle i drafod ein gwaith ysgrifennu buddugol a'n syniadau am bwysigrwydd cloriau'r cylchgronau gyda'r Golygydd a phump o'r penaethiaid adran gan gynnwys celf, dylunio, straeon byrion ac ati. Yna trwy broses o ddewis a dadlau rhyngom oll, aethom ati i wneud penderfyniad ar glawr mis Chwefror 1989. Anodd credu fod rhaid cynllunio'r holl gylchgrawn cymaint o amser o flaen llaw. Cewch weld lluniau ohonom wrthi yn trin a thrafod o gwmpas y bwrdd pan ddaw 'Good Housekeeping' Chwefror allan - hynny yw ar Ionawr 15!! - Rhyfedd o fyd ynte? Fe aeth y diwrnod yn ei flaen a ninnau'n cael ein tywys o un rhyfeddod at un arall - prosesyddion geiriau, teipiaduron, cyfrifiaduron - digon i ddrysu dyn yn llwyr. Roedd hi'n braf gweld bod ambell un yn dal ati wrth y ddesg efo pen neu firo digon cyffredin.

Gwell imi dewi! - dim ond rhyw damaid o wybodaeth i chi am ddiwrnod mewn byd tra gwahanol i'n byd bach ni yma yng Nghaerydd.

Owena Hopwood

# CERDDWN YMLAEN?




Tri ar ddeg o fandaliaid canol-oed digon parchus a wynebai Ynadon Caerdydd ar ddydd Llun, Hydref y trydydd. Actorion, athrawon, darlithwyr, llyfrwerthwyr, awduron, meddyg - a gweinidog yr Efengyl.

Tri ar ddeg o bobol yn 'u hoed a'u hamser yn wynebu cyhuddiadau o baentio'r geiriau DEDDF IAITH NEWYDD ar wal y Swyddfa Gymreig yn ystod wythnos Eisteddfod Casnewydd. Dyma bobol ddylai 'wbod yn well'; yn wir, fe fu'r mwyafrif yn 'gwbod yn well' ers ugain mlynedd - oddi ar dyddiau'r chwedegau a'r paent gwyrdd yn diferu o arwyddion, pan gafwyd Deddf Iaith sydd bellach yn annigonol ac yn aneffeithiol.

Ugain mlynedd o barchusrwydd swydd a dyletswyddau teuluol; ugain mlynedd o gefnogaeth glaear gadair-esmwyth i ymgyrchwyr dros yr iaith; ugain mlynedd o weithredu araf, cyfansoddiadol a gofalus, ac o roi pum punt yn y gronfa bob Steddfod i leddfu cydwybod...

Yn nyddiau Argyfwng y mewnlifiad a bygythiadau ar bob ffrynt, dyw hyn i gyd ddim yn ddigon. Mae angen un peth, ar fyrder, sef Deddf Iaith newydd gadarn a chynhwysfawr. Mae angen un, ac mae galw am un. Oni chafwyd prawf pendant o hynny yn nhystiolaeth y miloedd o unigolion a mudiadau a swyddogion llywodraeth a roddodd 'u barn i Mr Peter Walker a'i gyfeillion yn y Swyddfa Gymreig - tystiolaeth a anwybyddwyd mor bendant ganddynt?

Fe gafwyd dedfryd hanesyddol a phellgyrhaeddol ddydd Llun. Fe gafwyd tri ar ddeg o bobol yn euog o dorri'r gyfraith. Ond - fe'u rhyddhawyd, ar yr unig amod yr ystyrid y drosedd hon yn ychwanegol at unrhyw drosedd arall a gyflawnid yn ystod y flwyddyn nesaf. Dim dirwy, dim ond costau.

Fe hoffwn longyfarch yr Ynad Mrs D.Evans ar 'i phenderfyniad. O gofio am y degau sy'n debygol o sefyll 'u prawf am yr un drosedd, mae e'n benderfyniad blaengar ac arloesol.

Pwy fydd ymhlith y degau hyn? Nifer o Gymry parchus o bob oed. Fyddwch chi'n un?

Manon Rhys

# CYMWYNASWRAIG

Be sy'n dod i'ch meddwl chi gyntaf wrth glywed rhywun yn sôn am y Y.W.C.A.? Darlun o hosteli yn llawn o fyfyrwyr ac athrawon ifainc? Wel, iawn - mae 'na hosteli tebyg yng Nghaerdydd, Abertawe ac Aberystwyth a diolch amdanyn nhw ond mae'r Y.W. bellach wedi ehangu ei weithgareddau a newid cyfeiriad fel bu Mary Currie Jones yn egluro wrthym.

"Rydym ni'n gwneud ein gorau i ymateb i anghenion a phroblemau'n cymdeithas heddiw. Er enghraifft, yn ddiweddar rydym ni wedi sefydlu Clwb Ieuenctid newydd yng Nghwm Afan, ardal sy'n dioddef o ddiweithdra mawr. Roedd angen £60,000 a llawer iawn o ffydd, i gychwyn ar y gwaith o ddymchwel hen adeilad ynghanol y dref a'i ail-godi ond heddiw mae pobl ifainc (bechgyn a merched) yn dechrau mynychu'r Clwb. Ar yr un pryd cawsom gyfle i brynu tŷ yn Y Rhyl i'w ddefnyddio fel Canolfan i wragedd sy wedi cael eu camdrin - rhywle iddyn nhw fynd i gael dipyn bach o gysur, paned o goffi a lle i ymlacio a siarad. Yn yr achos hwn roedden yn cydweithio â mudiad arall, 'Women's Aid sy'n gwneud cymaint i roi lloches i wragedd a phlant".

Bu Mary yn Llywydd y Y.W.C.A. yng Nghymru am gyfnod o bedair blynedd, cyfnod o deithio cyson i Rydychen a Llundain i bwyllgora ynghyd ag ymweld â 13 Canolfan y mudiad yng Nghymru. Ac annerch cyfarfodydd - "dipyn o draul ar y dechrau ond erbyn y diwedd roeddwn i'n teimlo'n ychydig hapusach". Bu hefyd yn Gadeirydd y gangen yng Nghaerdydd am wyth mlynedd ac mae gweithgarwch newydd y Y.W. i'w weld yn y ddinas yn ogystal â'r Hostel 'traddodiadol' mae 'na hefyd gartref i famau di-briod a'u babanod ac i ferched ifainc sy'n gwbl ddi-loches. Gan fod rhai ohonyn nhw wedi bod yng ngofal y Gwasanaethau Cymdeithasol mae'r mudiad yn gweithio'n agos â swyddogion y Gwasanaeth.



"Does dim disgwyl i gartref o'r fath fod heb ei broblemau o dro i dro ac felly mae gofyn i'n Staff ni fod yn barod i wynebu sefyllfaoedd annisgwyl, digon anodd. Ein swyddogaeth ni, y gweithwyr gwirfoddol, ydi bod yn gefn iddyn nhw". Byddai'n dda ganddi weld mwy o bobl yn ymroi i'w gwaith a chael mwy o gymorth ariannol gan fod problem y di-gartref mor fawr.

Roedd Mary yn falch iawn mai i Gymru, i Abertawe, y daeth 200 o Gynrychiolwyr y Y.W. o Loegr, yr Alban a Chymru eleni i adolygu eu gwaith dros y bedair bynedd diwethaf ac i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae Cymru a Chymreictod ym mlaen ei meddwl bob amser ac er bod ei thymor fel Llywydd yn dirwyn i ben does dim amheuaeth na fydd yn dal i wasanaethu'r Y.W. a Chymru am flynyddoedd i ddod.

Diolch iddi am ei gwaith a phob dymuniad da.


YMUNWCH AG

UCAC

DROS GYFUNDREFN
ADDYSG ANNIBYNNOL
I GYMRU

Cysylltwch â
Phrif Swyddfa U.C.A.C.
Pen Roc, Rhodfa'r Môr,
Aberystwyth, Dyfed, SY23 2AZ
Ffôn: 0970 615577


## ARDDANGOSFA AR GADW GWARTHEG A LLAETHDAI YN LLUNDAIN

Cyndyfodiad y rheilffyrdd dibynnai holl drigolion Llundain ar y llaeth a gynhyrchid gan y miloedd gwartheg a gedwid yn y ddinas ei hun, a'r rhan fwyaf ohonynt yn yr East End. Bu cynydd sylweddol ym mhlobogaeth Llundain ar ôl 1750 a galw am lawer iawn o bobl i weithio yn y fasnach laeth. 'Roeddent yn cadw gwartheg mewn seleri tai byw yn ogystal ag mewn siedau neu feudái. Hyd heddiw y mae nifer o hen feudâi trefol i'w gweld yn Nwyrain Llundain.

Bu cysylltiad agos iawn y Cymry â'r fasnach laeth yn Llundain erioed. Fe'i sefydlwyd gan y porthmyn a fyddai'n gyrru gwartheg o Gymru i'r farchnad gig yn Smithfield. Gwetihredai'r porthmyn fel 'asiantau' i wragedd yn yr ardaloedd tlawd yng Nghymru. Yn y lle cyntaf, daethent o hyd i waith tymhorol iddynt ond yn raddol roeddent yn sefydlu eu hunain yn y fasnach laeth a'u brodyr yn ymuno â hwy yn ystod y dirwasgiad amaethyddol yng Nghymru. Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg amcangyfrifid mai Cymry oedd yn cadw dros chwarter o holl laethdai Llundain, a'r rhan fwyaf ohonynt yn hanu o sir Aberteifi.

Paratowyd arddangosfa luniau gan Stepney Regardant, grŵp o bobl ymroddgar sy'n ymddiddori ym mywyd ac amgylchedd y gweithwyr cyffredin yn Llundain. Y mae'r gwrthrychau perthnasol wedi eu dewis allan o gasgliad yr Amgueddfa Werin neu ar fenthyg oddi wrth gynfasnachwyr. Bydd yr arddangosfa i'w gweld yn Amgueddfa Werin Cymru o ddydd Llun 12 Medi tan ddydd Mercher 12 Hydref 1988.


**TAFLEN**
**12, Duke St. Arcade, Caerdydd.**
**Ffôn 227530**

**Mae angen person i weithio yn rhan amser yn y siop lyfrau.**

**Manylion pellach am yr oriau, cyflog ac yn y blaen, oddiwrth Emyr Huws Jones, yn Taflen.**



BWRDD Y GENHADAETH
Eglwys Bresbyteraidd Cymru

YSGRIFENNYDD-DDES/
CYNORTHWYYDD PERSONOL

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn ddwyieithog gyda phrofiad mewn gwaith swyddfa. Cyflog i'w drafod yn ôl oed a phrofiad.

Manylion pellach gan:
Gwenda Williams
Ffôn: 0222 494913





Arlwyo Awril
Partïon, ac Achlysuron Arbennig.
Darperir at unrhyw rif.
Rhywbeth at ddant pawb.
Bwyd ffres.
Prisiau rhesymol.

Ffôn 481001 (Caerdydd) am fwydlen.



TAPESTRI I NEUADD SIR NEWYDD DE MORGANNWG

Mae Cyngor Sir De Morgannwg i gomisiynu'r tapestri modern mwyaf yng Nghymru ar gyfer cyntedd eu pencadlys newydd, sydd ar hyn o bryd bron â'i gwblhau yn Atlantic Wharf ym Mae Caerdydd. Y tapestri 180 troedfedd sgwâr fydd uchafbwynt y dylunio mewnol sy'n anelu at wneud y cyntedd yn groesawgar, er mwyn osgio'r teimlad oer sydd weithiau'n gysylltiedig âg adeiladau dinesig. Gall y cynllun adlewyrchu unrhyw agwedd ar fywyd, hanes neu ddyheadau Sir De Morgannwg, a disgwylir amrywiaeth eang o syniadau a dehongliadau.

Mae'r comisiwn yn werth £18,000 (gall gymryd hyd at ddeuddeg mis i wneud tapestri o'r maint yma) ac y mae'n cydfynd â pholisi'r Cyngor o wario canran fechan o gostau eu hadeiladau newydd ar wella'r adeiladau eu hunain a'u hamgylchedd â gwaith celf a chrefft newydd. Yn ddiweddar mae'r polisi hwn wedi cynhyrchu'r gyfres o ffenestri lliw 18tr wrth 3tr yng Nghanolfan Hamdden Channel View, addurniadau mur ar gyfer Llyfrgell Trelái a gwaith cerflunio a mosaic y tu mewn i Ganolfan Hamdden Holm View.

Bydd y comisiwn yn agored i artisitiaid sydd â phrofiad mewn tapestri neu â diddordeb arbennig ynddo. O sleidiau a ffotograffau o'u gwiath dewisir hyd at chwe artist i baratoi syniadau ar gyfer y cynllun erbyn mis Tachwedd 1988. Pan ddewisir y cynllun ar gyfer y gwaith terfynol, bydd gan yr artist tan fis Medi 1989 i gwblhau a gosod y gwaith.

Gwahoddir artistiaid i anfon am Gyfarwyddiadau'r Cynllun ac i gyflwyno'u syniadau erbyn 1 Tachwedd 1988.

Am ragor o wybodaeth byddwch cystal â chysylltu7 â Roger Lefevre neu Alison R T Scott, Gwasanaeth Comisiynu Celf a Chrefft Cyngor Celfyddydau Cymru, 9 Stryd yr Angueddfa, Caerdydd CF1 3NX Ffôn 0222 394711

# Arddangosfeydd

Amgueddfa Genedlaethol Cymru
Y Prif Adeilad    Parc Cathays

CAMPWEITHIAU O'R AMGUEDDFA GENEDLAETHOL

Tŷ Turner
Heol Plymouth, Penarth

PEINTIADAU CYFOES yn parhau

Amgueddfa Diwydiant a Môr
Heol Bute

6 Hydref - 30 Tachwedd
DARLUNIO ADEILADAU TREFOL
Trefnwyd yr arddangosfa hon, o waith Mary Traynor ar achlysur agor canolfan newydd Cyngor De Morgannwg yn y Doc Dwyreiniol y mis hwn. Darluniau pin ac inc a dyfrlliw, o hen adeiladau Caerdydd - rhai eisioes wedi diflannu.

Y Ffotogallery
Heol Siarl

7 Hydref - 5 Tachwedd
GADEWCH I NI FOLI MERCHED ENWOG YN AWR
Gwaith ffotograffiaeth merched o America, tra'n gweithio i adran diogelwch y Llywodraeth. (Hefyd - cyfres o ddarlithiau trwy gydol y mis 'Trafod Ffotograffiaeth Cyfoes' - manylion o'r oriel)

Neuadd Dewi Sant
Lefel 2    Yr Ais

tan 14 Hydref
PEINTIADAU DIWEDDAR Ernest Zobole


**ORIEL, Heol Siarl**
**GWYL FFOLIO tan 15 Hydref**
**Printiadau gan Albanwyr**

**Artistiaid yng Nghymru**
**22 Hyd - 19 Tach**
**Gweithiau gan Keith Arnatt, Gillian Ayres, David Nash.**

**TAFLEN**
**Gwneud Argraff - pedwar argraffydd yn cynnwys Paul Peter Piech.**
**Posteri arbennig yn dehongli caneuon Dafydd Iwan.**

**Hydref 22 ymlaen -**
**Canolfan Wehyddu SEION Llanberis.**

CYMDEITHAS YR IAITH
CELL CAERDYDD
Yr ydym ni aelodau Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn datgan ein cefnogaeth i'n cymrodyr yn y gwasanaeth Post gan obeithio y cant fuddugoliaeth llwyr.
MEWN UNDEB MAE NERTH.







**FEL RHAN** o arddangosfa ddiweddaraf TAFLEN mae posteri trawiadol gan Paul Peter Piech.

Americanwr yw Piech sy'n byw ym Mhorthcawl ar hyn o bryd ac yno y mae'n gweithio ac yn argraffu ei bosteri "Lino cut". Mae elfen wleidyddol i'w bosteri boed yn ddyfyniad gan rywun fel Martin Luther King neu'n ddarn o farddoniaeth.

Mae'n addas felly ei fod wedi paratoi nifer cyfyngedig o bosteri ar gyfer TAFLEN i ddathlu cwarter canrif Dafydd Iwan fel canwr a bardd gwleidyddol. Ar y posteri ceir dyfyniadau o rai o ganeuon enwocaf Dafydd - wedi eu harwyddo gan yr arlunydd a'r canwr.

Pump ar hugain yn unig o bob poster fydd ar gael, felly'r cyta i'r felin fydd yn sicrhau meddiant ar waith gwreiddiol, rhad a phrin.



# O'R MAES

J. Gwynfor Jones

DIWYLLIANT GWENT YNG NGHANRIF FICTORIA



Bu'r bywyd Cymraeg yng Ngwent yn gryf yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Er gwaethaf yr holl fygythiadau iddi dros y canrifoedd ac agosrwydd Lloegr parhaodd i fynnu ei Chymreictod, yn arbennig yn ardaloedd diwydiannol y rhannau uchaf ohoni.

Yn ddiamau, gweledigaeth a gweithgarwch Arglwyddes Llanofer (Gwenynen Gwent) fu'n sail i bwysigrwydd y berw diwylliannol. Bu hi a'i gŵr, Benjamin Hall, Arglwydd Llanofer, yn flaenllaw yn y bywyd Cymreig yn y sir, a phwysleisiodd y ddau ohonynt bwysigrwydd defnyddio'r iaith Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd y plas. Gweithredodd Arglwydd Llanofer fel Comisiynydd Gwaith yn Nhŷ'r Cyffredin, ac yn ystod ei gyfnod yn y swydd adeiladwyd y tŵr a'r cloc a gawsai ei enw ar ei ôl, sef 'Big Ben'.
Bu Arglwyddes Llanofer dan ddylanwad Thomas Price (Carnhuanawc), ficer Llanfihangel Cwm-du - hynafiaethydd hynod iawn - a Chymdeithas Cymreigyddion Y Fenni. Mynnodd fod popeth yn ei chartref yn Llanofer yn Gymraeg, a rhoddwyd enwau Cymraeg i'r gweision a'r morynion. Prynodd lawysgrifau yn ymwneud â Chymru, a noddai'r 'Welsh Manuscripts Society'. Gydag eraill casglodd alawon gwerin y genedl a bu'n noddwr hael i ysgolheigion. Yn ei meddiant hefyd bu llawysgrifau Iolo Morgannwg, y saer-maen unigryw hwnnw o'r fro a gawsai gymaint o ddylanwad ar lenyddiaeth a hynafiaethau Cymru. Bu'r Arglwyddes yn ddirwestwr mawr a gwaddolodd ddau gapel Presbyteraidd Cymraeg, sef Rhyd-y-meirch ac Abercarn ger Rhisca. Cynhaliodd eisteddfodau llwyddiannus ac iddynt deuai mawrion llenyddol Cymru. Cyfrannodd Arglwyddes Llanofer yn hynod iawn i barhad diwylliant y Cymry, ac ystyrir ei gwaith yn casglu a dosbarthu llawysgrifau ac alwon gwerin yn gamp amhrisiadwy. Nid rhyfedd i'r Deon David Howell (Llawdden) o Dyddewi gyfeirio'n ganmoliaethus ati yn Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd flwyddyn wedi ei marwolaeth.

> Pan ddeuthum yma o ddinas hynafol Tyddewi....ni allwn lai na chredu fod ysbrydion gwroniaid yn yr awyr uwch ein pennau. Yr orau yn eu mysg i gyd ydoedd Boneddiges Gymraeg anrhydeddus, calon yr hon oedd yn llosgi dros wlad ei genedigaeth a'r hon a noddai farddoniaeth a cherddoriaeth Gymraeg mewn adeg pan nad edrychid ar wladgarwch yn ddim gwell na llin yn mygu.

YNg Ngwent hefyd gwelwyd gweithgarwch llenyddol a newyddiadurol, yn arbennig yn y cymoedd diwydiannol, canolfan dra phwysig i Gymreigrwydd yn y sir. Yn Nhredegar - lle bu Ieuan Gwynedd yn gweinidogaethu am gyfnod - y ganwyd William Williams (Myfyr Wyn) - gof, bardd a hanesydd lleol - a ysgrifennodd ei 'Atgofion am Sirhywi a'r Cylch', gwaith da gyhoeddwyd flynyddoedd wedi ei farw. Bu Robert Ellis (Cynddelw) yn weinidog ar eglwys y Bedyddwyr yn Sirhywi rhwng 1847 a 1862 ac yn gyfrannwr cyson i gyfnodolion a chyfrolau trwchus megis Hanes y Brytaniaid a'r Cymry a'r Gwyddionadur. Gŵr hynod arall oedd William Roberts (Nefydd) - brodor o Lanefydd - gwenidiog eglwys Salem, Blaenau Gwent am flynyddoedd maith. Dangosodd ei amrywiol ddoniau yn ei draethodau a'i golofnau newyddiadurol; sefydlodd wasg argraffu a golygydd Seren Gomer am gyfnod helaeth. Yn 1853 fe'i apwyntiwyd yn gynrychiolydd Cymdeithas Ysgolion Brutanaidd a Thramor yn ne Cymru a chyfrannodd lawer i achos addysg yn ei wlad. Yr oedd Nefydd hefyd yn gasglwr llyfrau a llawysgrifau brwd iawn a meddai ar lyfrgell gyfoethog.

Tua'r un cyfnod daeth William Thomas (Islwyn) i'r amlwg, ac mae'n debyg mai ef yw ffigur llenyddol mwyaf adnabyddus Gwent ei oes. Fe'i ganed yn Tŷ'r Agent ger Ynysddu yng nghwm Sirhywi ac fe'i ordeiniwyd yn weinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd. Bu'n barddoni llawer ac yn ddiamau ei gerdd enwocaf yw 'Y Storm', cyfansoddiad cymhleth a ddeilliodd o'i brofiadau chwerw wedi marwolaeth ei gariad Anne Bowen. Ei emyn mwyaf adnabyddus, mae'n debyg yw hon

> Gwêl uwchlaw cymylau amser,
> O fy enaid gwêl y tir;
> Lle mae'r awel fyth yn dyner,
> Lle mae'r wybren fyth yn glir.
> Hapus dyrfa
> Sydd yn nofio yn ei hedd.

Un o'i athrawon barddol oedd Aneurin Jones (Aneurin Fardd) o Bedwas, bardd a llenor galluog. Ymfudodd i America ac yno y claddwyd ef yn Los Angeles. Cyfeiriwyd eisoes at Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd a gynhaliwyd yn 1897. Bu ail Farwn Tredegyr yn amlwg iawn yn y gweithgareddau. Rhoddodd Gorn Hirlas yn rhodd i'r Orsedd a gynlluniwyd gan W Goscombe John. Yn Eisteddfod Casnewydd hefyd rhoddwyd i'r Archdderwydd (Hwfa Môn) a'r gorseddogion wisgoedd newydd gan yr Athro Ahubert von Herkomer. Gŵr o Fafaria ac arlunydd o fri. Enw barddol Barwn Tredegyr oedd Ifor Hael yr Ail o barch i'w hynafiad yng Ngwerny clepa. Cymerodd y pendefig lawer mwy o ddiddordeb mewn diwylliant cenedlaethol nag a wnaeth unrhyw un arall ymhlith ei hynafiaid dros ddwy ganrif a hanner ac eithrio ei ewythr Octavius Morgan. Mewn cyfnod pan ymosodwyd yn ffyrnig ar orsedd y Beirdd aeth rhagddo'n afieithus yn ei araith i dyrfa'r Eisteddfod i'w hamddiffyn fel un o sefydliadau sylfaenol gwareiddiad yr hen Frythoniaid a hawliai barch ac anrhydedd.

Wedi hynny, cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yng Ngwent ym Mhonty-pŵl (1924) a Glynebwy (1958), ac eleni mae dyfod yr ŵyl unwaith eto i'r fro yn dystiolaeth gadarn i barhad yr ymwybyddiaeth Gymreig yn y de-ddwyrain. O gofio am fygythiadau difrifol i'r ymwybyddiaeth honno dros y canrifoedd mae'r gamp yn fwy hynod. Erbyn hyn sefydlwyd ysgol uwchradd Gymraeg yn y sir; testun diolch a gobaith, ie, ond her a sialens hefyd i Gymry'r ddegawd - a'r ganrif nesaf.



# BWTH RUTH



Wel helo – pa hwyl sydd?
Dwi newydd gael golwg arall ar y Fam Ynys – ie Sir Fôn!! Mi fûm i'n ddigon ffodus i fod yn un o'r criw aeth o Ysgol Breswyl Merched y Wawr ym Mangor ar daith o gwmpas yr hen ynys ar bnawn Sadwrn ym mis Medi.
Diwrnod hafaidd braf oedd hi – y math o ddiwrnod ddaw a chynhesrwydd a balm i'r enaid wrth gofio amdani gefn gaeaf ar ddiwrnod oer digysur.
Fwynheais i erioed weld a chroesi Pont Telford gymaint – gan fod Elen Roger Jones wedi disgrifio cyfnod ei chodi a'n hatgoffa o gyfnod y goets fawr a mynnu ein bod yn adrodd yr englyn amdani.
Fu Penmon erioed yn harddach nag yn sŵn geiriau T. Gwynn Jones a rheiny'n cael eu hadrodd gan yr actores hynaws. Mi welsom ardaloedd Syr John Morris Jones a Goronwy Owen. Mi gawsom gip ar Moelfre ac mi glywsom am effaith a dylanwad llong ddrylliadau ar yr ardal – fel y Royal Charter. Mi glywsom hanes y 'copar ladis' o Fynydd Parys a gweld lle bu'r Morisiaid.
Roedd paned yn y stafell de yng nghysgod Melin Llynnon yn dderbynniol dros ben cyn ail gychwyn i weld Llannerchymedd – prif dref y Sir ers talwm, heibio Llangefni (a gweld lle bu'r bore godwr Hywel Gwynfryn yn yr ysgol!!) Mi welsom Blas Pen mynydd – cartre Harri Tudur – ag wrth deithio'n ôl am Arfon mi roedd Elen Roger Jones yn siŵr fod mynyddoedd Eryri yn gwgu gan ei bod hi wedi brolio gymaint ar Sir Fôn.
Fe fu'r Ysgol Breswyl yn glamp o lwyddiant o'r geiriau cyntaf – caboledig a chynnes – glywyd gan Margarette Huws, Llywydd newydd y Mudiad ar y nos Wener reit drwodd at gyflwyniad graenus, gafaelgar Cangen Tregarth wrth iddyn nhw olrhain dylanwad y Beibl.
"Cynnal y Fflam" oedd testun yr Ysgol Breswyl i Margarette Huws – a dyna yn wir a gafwyd.
Mi rydwi wedi dod a peth o hanes Ysgol Breswyl Merched y Wawr i chi genod Caerdydd gan fod yno cyn lleied ohonoch chi, aelodau cyffiniau Caerdydd yno. Mi rown i'n siomedig hefyd yn y nifer fach o aelodau ardal Bangor a'r cyffiniau oedd yno!!!
Dros y gaeaf nesa 'ma mi rydwi wedi cytuno i fynd at sawl grŵp Merched y Wawr ar hyd a lled Cymru – dwi'n siŵr cai groeso a derbyniad gwerth chweil ymhob man ond dyna biti na does yna ymlyniad i'r mudiad yn genedlaethol.

"Onid hoff yw cofio'n taith
Odidog ddiwrnod ydoedd,
Rhyw Sul uwch na'r Suliau oedd;
I ni daeth hedd o'r daith hon,
Praw o ran pererinion."

a dyna oedd yn wir – beth am ddod y tro nesaf.

O.N. – Dymuniadau da a phob llwyddiant i Margarette Hughes yn ei swydd newydd – Swyddog Maes Merched y Wawr yma yn y de.

Llongyfarchiadau i Hywel Gwynfryn ac Anya a'r hogia ar enedigaeth Tomos.Gobeithio ei fod yn bihafio er mwyn i Dad allu codi gyda thoriad gwawr y bore!

## SIALENS I'R BLAID DDILYN ARWEINIAD YR S N P

Rhoddwyd sialens i Blaid Cymru gan ei Llywydd, Dr Dafydd Elis Thomas, i ddilyn arweiniad ymgyrchu Plaid Genedlaethol yr Alban.

Yn dilyn ymweliadau diweddar a'r Alban dywedodd Dr Thomas wrth Bwyllgor Rhanbarth ei etholaeth ym Mlaenau Ffestiniog, nos Iau 22 Medi 1988, iddo gael trafodaethau gyda nifer o ymgyrchwyr yr SNP, Aelodau Seneddol San Steffan, a'r Aelod Seneddol Ewropeaidd, Mrs Winni Ewing, a bod gwleidyddiaeth yn yr Alban yn awr yn ymddangos yn llawer mwy cyffrous na gwleidyddiaeth yng Nghymru.

Mae'n rhaid i ni gyfaddef nad yw'r un sefyllfa yng Nghymru. Nid ydym wedi llwyddo i greu trafodaethau gwleidyddol ar hyd y wlad, ac nid yw Plaid Cymru wedi llwyddo i ddenu cefnogaeth eang fel yr ymddengys y mae'r SNP yn ei denu.


Yn amlwg nid ydym am weld Cymru ar ôl mewn unrhyw ddatblygiadau a fyddai'n rhoddi blaenoriaethau pŵer gwleidyddol i'r Alban, os y digwydd hynny fe fyddai'n llawer iawn mwy anodd i gystadlu am ffynhonellau ariannol oddiwrth Lywodraeth Prydain neu oddiwrth y Gymuned Ewropeaidd, ac i sicrhau bod Cymru yn elwa o fuddsoddiadau o'r tu allan a datblygiadau busnes newydd.

Mae'n rhaid i Blaid Cymru ehangu'r gefnogaeth ymhellach na'r aelodaeth bresenol, ac ardaloedd a chefnogaeth gref.

Yr wyf felly yn gofyn i'n holl ganghennau, a'n rhanbarthau, ar ddechrau blwyddyn wleidyddol newydd, ac yn ystod y cyfnod hwn, o hyn i'r Gynhadledd yn y Drenewydd, i asesu eu lefel gweithredu, gyda'r amcan ein bod yn adlewyrchu bywyd y gymuned mewn aelodaeth buddiannau ein holl gymunedau yng Nghymru.

DAFYDD ELIS THOMAS


Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
16 Llys Teilo Sant
Y Rhath
Caerdydd
Ffôn 484816


HYDREF 7 — 22, 1988
PYTHEFNOS
RECORDIAU CYMRAEG
BARGEN! BARGEN! BARGEN!
DEWCH Â'R FFURFLEN HON I
UNED SAIN A CHEWCH
OSTYNGIAD O 50c AR
UNRHYW GASET NEU RECORD
BARGEN! BARGEN! BARGEN!
SAIN · LLANDWROG · CAERNARFON · GWYNEDD
(0286) 831 111
PYTHEFNOS


# PYTIAU

Llongyfarchiadau i'r Dr Geraint Roberts ar ei benodi'n Athro Radioleg yn Ysbyty'r Waun. Mae'r Athro Roberts, sy'n aelod yng Nghapel Minny Street, yn byw ym Mharc y Rhath. Mae'n fab i Parchedig a Mrs D J Roberts, Aberteifi.

Am waith ymchwil yn ymwneud a rheoli ysgolion uwchradd cafodd Colin Morgan o Highfields, Llandâf, ddoethuriaeth gan y Brifysgol Agored. Ein llongyfarchiadau i'r Dr Morgan, sy'n enedigol o Rymni a sydd yn aelod selog o ddosbarth Cadw'n Heini'r dynion yng Nglantaf.

Croeso cynnes i Gaerdydd i'r Dr a Mrs Dewi M Lewis sydd newydd ddod i fyw i Landâf. Brodor o'r Creunant yw'r Dr Lewis ac mae'n frawd i'r cyn Arolygwr Ysgolion, Illtyd Lewis. Un o ferched Ystalyfera yw Mrs Margaret Lewis. Buant yn byw yn Llundain am ddeugain mlynedd. Croeso hefyd i'w merch Catrin sy'n byw yn ardal y Waun a sydd yn athrawes yn Nhreganna.

Yn Ysbtyty'r Waun yn cael profion mae Bernard Evans. Erbyn ymddengys y geiriau hyn gobeithio y bydd adref yn holliach.

Yn dal i fynd mor llewyrchus ag erioed yn ei bedwerydd blwyddyn ar ddeg mae'r dosbarth Cadw'n Heini i ddynion yn Ysgol Glantaf. Croeso i unrhyw un dros yr hanner cant i ymuno a'r dosbarth sydd yn nwylo medrus Arwel Owen.

Dylid anfon deunydd y rhifyn nesaf at y Golygydd,
Coed y Pry,
3 Llandennis Ave.,
Cyncoed.
erbyn Hydref 24ain.


Dymuna'r DINESYDD gydnabod gyda diolch y grant tuag at gostau cyhoeddi a dderbyniwyd o goffrau'r Swyddfa Gymreig drwy law Cymdeithas Gelfyddydau De-ddwyrain Cymru.


Colled fawr i holl ddarllenwyr Y Dinesydd yw marwolaeth y cyfansoddwr Arwel Hughes.Ond colled enbyd i'w deulu.Gwyddom pa mor glos yw 'r teulu, mae ein meddyliau a'n cydymdeimlad cywiraf a hwy.


Hunangyflogedig?
Heb Bensiwn?
Ffôn: Caerdydd (0222) 562816
LYNN JONES
Aelod o FIMBRA
30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB
BUDDSODDIADAU
YSWIRIANT BYWYD
PENSIYNAU

# Y GOLOFN GAIN

EISTEDDFOD Y WLADFA 1988

BARDDONIAETH

1- Testun Rhydd.

MYFYRIO A CHOFIO

Rhyw grwydro mae y galon
Dros gryf awelon co',
I gyfnod di bryderon
Aelwydydd clyd ein bro:
Yn gynnil a chalonnog
Cyfrannu pawb o hyd,
Er cyd drafeilio'n bwyllog
Trwy holl drafferthion byd.

'Roedd aelwyd a chymdeithas
Yn glynu wrth ganllaw gref:
Sef ar y Deg Gorchymyn
A'i iachawdwriaeth Ef.
'Rwyn cofio'r hen gynhesrwydd
Personnol, llawen, plaen,
Pan gwrddai rhai cymdogion
Wrth gario'u gwaith ymlaen.

Mor hapus pan yn blantos
Wrth holi'n ddi-ben-draw:
Ple 'daethom, pwy a'n creodd,
Beth yw y gwynt a'r glaw...?
Drachefn dysgasom lawer
O bethau i fwynhau,
Ac er ein bod yn deidiau
Mae'r wers i ni'n parhau.

'Roedd swyn y cyfarfodydd
Yn gyfrwng i gryfhau
Ein safon foesol, cadarn,
Cawn gorchwyl i fwynhau.
Y teulu oedd y sylfaen
I greu cymdeithas iach,
Ac enghraifft y rhieni
Yn gyson i'r plant bach.

Nid oedd yr hap-chwareon
Yn rowndio'n cwmpas ni,
Na'r ysgariadau creulon
Sy'n drwbwl heddiw i'r llu.
Ni chlywsom neb yn siarad
Am gysbair fasnach brwnt,
Yr oedd eu diddordebau
Dros bethau sydd tu hwnt.

Fel, heddiw cawn y farchnad
I ennill yr oll fyd;
Heb enaid, ar ddisberod,
Nid yw ond twyll i gyd.
Anfodlon cawn sawl teulu
Wrth gasglu cyfoeth mawr...,
Chwedl yw eu breuddwyd,
Ond bythol maent ar lawr.

Mae chwyldroadau filoedd
Fel dilyw heddiw'n cau
A'n llyncu yn eu dyfroedd,
Neu'n mygu copa rhai.
Cawn hedeg rhwng planedau,
A gweld ar sgrin y byd
Mewn rhyfedd gynhyrfiadau
A'i wybren ddu pob pryd.

Ar lwyfan mawr dynoliaeth,
Masnachwyr gawn ar frys
Yn elwa ar blant a dynion...,
Beth bynnag fydd y pris.
Mae dyn yn cael ei brisio
Fel nwyddau yn y siop
Gan rhai sy'n mynnu gosod
Eu marchnad ar y top.

Cyffredin yw troseddu
Y Deg Gorchymyn nawr,
Tra'r teulu'n cael ei gorddi
Ymysg budreddi'r llawr.
Mae'r aberth wnaeth y werin
Heb droi y cloc yn ôl,
Ers llawer dydd yn machlud
Dan dwyll oleuni'r ffôl.

—

Ond er fod egwyddorion
Yr oes yn dywyll iawn,
Os syllwn ar y gorwel
Rhyw fflach o oleu gawn:
Mae rhai yn dal yn ffyddlon
Ar lwybrau bywyd Duw,
Ac eraill yn eu dilyn
Er mwyn cael dechrau byw.

Rwy'n ymson â chanllawiau
Sy'n curo yn y co',
Mewn gobaith cant eu dertyn
Yn falm gan newydd do.
O! gymhleth oes presennol,
Oer fasnach yw dy hynt;
Cawn lawer gwell dyfodol
Trwy'r safon foesol gynt.

MAB Y DYFFRYN.

---

## GWYLIAU GWIRION!




Blas Cas?

Bwyd Hal Al Bol Bol!

A nosweithiau oer y gaeaf yn nesau beth well na eistedd o flaen y tan ac edrych yn ol ar y gwyliau yna a gawsoch yn ystod yr haf?
Dyma ddau lun blasus a dderbyniodd Y Dinesydd!
Tybed a'i Hywel Gwynfryn sy'n cadw'r gwesty?

Gyrrwch eich lluniau doniol i'r Dinesydd i'n difyrru yn ystod y gaeaf!

CÔR MEIBION IFOR BACH

YN EISIAU

ARWEINYDD A CHYFEILYDD

Cysylltwch ag Alan Jobbins, 47 Wingfield Rd, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd. Ffôn 623275

## — EISIAU GWAITH? —

**Mae angen person i weithio yng Nghanolfan yr Urdd, i gynorthwyo gyda'r gwaith gweinyddol. Y gallu i deipio yn hanfodol.**

**10 awr yr wythnos. Manylion am y cyflog ac yn y blaen, oddiwrth Canolfan yr Urdd, Heol Conwy, Canton, Caerdydd. Ffôn 236201, neu 394452.**

---

Merch broffesiynol i rannu tŷ yn ardal Caerffili.
Ffoniwch Caerdydd 765163


---

TAFLEN

**12, Duke St. Arcade,
CAERDYDD.
Ffôn: 227530**

**Mae angen person i werthu yn rhan amser yn y Siop Lyfrau. Am fwy o wybodaeth ynglyn a'r cyflog a'r oriau, cysyllter ag Emyr Huws Jones yn y siop.**

# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn    RHIF 84



**Ar Draws**

1. Gwasanaethau rhesymol a drefnir gan sylwedydd TAU (11)
10. Byddid yn ymdroi wrth gyfeirio troed i dŷ digroeso (5)
11. Yn agored ----- a mae hynny'n darbwyllo. (9)
12. Achlysur o gwmpas y flwyddyn gyntaf o'n cyfnod ni. (9)
13. Croesair Mr Griffith o Gaernarfon? ------- efallai (5)
14. Dogfen a roddir o flaen y Cylch, i'r pwrpas o adnewyddu'r lle. (6)
16. Difa Sodom yw'ch nod pan ddygwch gyrch arni (8)
18. Hen un sarrug (8)
20. Gafr ifanc oedd yn eiddo iddi, fel y byddai mab fy chwaer yn hawlio (6)
23. Mae Arthen yn cryfhau wrth ymlacio (5)
24. Un barfog, wrth droi a throsi, yn dangos fod y gosodiad yn anghywir(9)
26. Wedi ei gynnwys o fewn i gêm a gaed yn llawn cyffro (9)
27. Dau ddiwrnod yn ôl (5)
28. Symud yn seremonïol yn 1 Gymro doeth, (i ddull newydd) (11)

**I Lawr**

2. Yn hardd ac yn gyfiawn (2,3)
3. Rhufeiniwr efallai (7)
4. Cyrcydu (6)
5. Mynd i'r afael (8)
6. Geneth lon, yn ôl yr hyn a glywn, ond eto yn annedwydd (7)
7. Mor gynnar ag sy'n bosib (5,2,6)
8. Megis pali! (3,5)
9. Cyfnod hwyr o heulwen (3,3,7)
15. Del Prâg, yn gymysg â'r mymryn lleiaf o rug, yn rhoi naws persawrus (8)
17. Gellir rhoi sago llwyd ar dân, ar ôl ei drin (8)
19. "Duw a'n ---------!!" (7)
21. Trefferthu (7)
22. Tipyn o gweryl yn rhoi W G ynghanol yr afon (6)
25. Deio a fyddai yn ymdroi, (mewn dau ystyr) (5)

DATRYSIAD CROESAIR rhif 83

Ar Draws 1. ARBEDWYD; 5. GOLCHDY; 9. ARBENIGO; 10. ASSISI; 16. SBONC; 11. YR HWCH DRWY'R SIOP; 14. OFNED; 15. ANFRI; 17. YMSON; 20. DRAMA; 22. HEB OS NAC ONIBAI; 24. TEWHAU; 25. DIRWYYD; 26. OEDDENT; 27. UNFRYDEDD

I Lawr 1. ARALL; 2. BOB YR UN; 3. DINIWED; 4. YMGYDNABYDDA; 6. OES YR IA; 7. CHWILIAF; 8. Y SIOP DDILLAD; 12. WYHINOSIOLION; 13. COCYN HITIO; 18. SOBRWYD; 19. NESHAWN; 20. DRINGWYR; 21. ANAFWYD; 23. Y DYDD

Ni chynigiwyd gwobr am ddatrys yr uchod yn Dinesydd mis Medi, ond teg yw nodi inni dderbyn tair ymgais, a'r tair yn hollol gywir, oddiwrth Hefin Wyn Tomos, Y Rhath ac oddiwrth Rhian James, Yr Eglwys Newydd a Marged Davies, Llandâf.

Anfoner yr atebion at Ap lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed, Caerdydd, erbyn Hydref 24ain.


HYSBYSEBWCH YN Y DINESYDD

AM FANYLION CYSYLLTER A:
Tony Couch,
2 Crystal Glen,
Y Mynydd Bychan,
Caerdydd. CF4 5QH
FFON:CAERDYDD 753625
neu 815881 est. 344


# Honno

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf bu dros ddau gant a hanner o ferched sy'n byw yng Nghymru yn brysur yn paratoi eu ceisiadau ar gyfer cystadleuaeth a drefnwyd gan Gyngor y Celfyddydau. Gofynwyd am ysgrif hunangofiannol heb fod dros ddeng mil o eiriau a daeth 217 o ysgrifau i law yn yr Adran Saesneg a 45 yn y Gymraeg. Nos Wener, Medi 30ain, cyflwynwyd y gwobrau i'r ennillwyr yng Ngwesty Sandringham, Caerdydd ac yn ystod y noson cafwyd darlleniadau o'r cynyrchiadau buddugol gan yr awduron. Cipiodd Irene Thomas o Lyn Ebwy y wobr gyntaf o £500 yn yr Adran Saesneg gyda'i hysgrif 'A Collier's Row 1939' a dyfarnwyd yr ail wobr o £300 i Ray Evans, Rhiwbeina, Caerdydd am 'Ifan Went Away', gyda Nesta Dodson, Janice Short ac Ann Moore yn rhannu'r drydedd wobr. Yn yr Adran Gymraeg daeth dysgwraig i'r brig, sef Lynne Evans o Salem Llandeilo. Rhanwyd yr ail wobr rhwng Monda Morris o Fon a Gwyneth J. Evans o Gwm Tawe, a'r drydedd rhwng Carys Richards Porthmadog, Elaine Morgan, Trelai, Caerdydd, gyda'i hysgrif 'Glaswellt ar y Palmant'

Llongyfarchiadau iddyn nhw i gyd (yn arbennig Ray ac Elaine o Gaerdydd) ynghyd â Shân Emlyn a gafodd ganmoliaeth uchel yn yr Adran Gymraeg. Gobeithir cyhoeddi ysgrif Irene Thomas a 'Tylluan Bwtwn' Lynne Evans gan Wasg Honno.

# LLONGYFARCH



Ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 30ain priodwyd Wyn Owen, mab Marian a Terwyn Davies, a Nora Charles, yng Nghapel Elim, Pontiets. Gweithio fel Darpar Gyfrifydd yn Adran y Trysorydd Canol Morgannwg mae Wyn tra mae Nora yn Athrawes Saesneg yn Ysgol Gyfun Llanharri. Pob hapusrwydd iddynt yn eu cartref newydd yn Heol Pantycelyn, Yr Eglwysnewydd.